

Wrth iddynt ddatblygu

Chwarae â Chwedlau



Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

Anogwch y plant i archwilio'r canlynol:

- Dychmygu eu bod yn gaeth mewn castell a bod rhywun/rhywbeth yn dod i'w hachub nhw. Yr unig ffordd o ddianc yw cuddio yn 'swigen' yr achubwr, lle bydd yn amhosibl i neb eu gweld. Os byddant yn symud allan o'r swigen neu'n cyffwrdd â'u hachubwr, bydd yr hud yn cael ei dorri. Rhaid iddynt symud yn gyflym drwy duneli a choridorau'r castell, ar draws y ffos i ryddid
- Rhannu 'swigod' ei gilydd. Dylent ddechrau ag un yn sefyll y tu ôl i'r llall – y plentyn blaen yn 'arweinydd' a'r plentyn ôl yn 'ddilynwr'. Dylai'r ddilynwr geisio aros yn 'swigen' yr arweinydd heb gyffwrdd â'r arweinydd
- Penderfynu beth sy'n digwydd os byddant yn cyffwrdd â'r arweinydd neu'n symud allan o 'swigen' yr arweinydd
- Penderfynu ar y llwybr y byddant yn ei gymryd i ddianc, pan fyddant yn 'arweinydd'
- Chwarae'r ddwy rôl – un yr 'arweinydd' ac un y 'dilynwr'
- Datblygu a gwisgo gwisgoedd/coronau/masgiau i wella'r gwaith chwarae rôl

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud
- Cerdded, rhedeg, cropian, milwyr yn cropian, neidio a glanio
- Arwain, dilyn
- Rhannu swigen, y tu mewn i swigen, y tu allan i swigen, ymwybyddiaeth ofodol
- Llwybr, cyflym, sydyn, buan

Cyfleoedd i:

- ddatblygu rheolaeth gynyddol ar symudiadau mawr y corff
- dilyn rheolau syml gêm
- chwarae rôl mewn partneriaeth â phlant eraill

Adnoddau

- Marcwyr dros dro/marciau sialc
- Rhaffau sgipio
- Cylchoedd, tuneli
- Parasiwtiau
- Straeon/straeon tylwyth teg/llên gwerin
- Clipiau o ffilm 'Shrek'/ffilmiau addas eraill
- 'Gardd' fawr

Cwestiynau

- Sut caisoch chi eich caethiwo yn y castell? Pwy oeddech chi, yn eich dychmygu? Pwy ddaeth i'ch achub chi?
- Ar beth roeddech chi'n edrych wrth i chi ddilyn eich partner?
- Pa mor fawr oedd 'swigen' eich arweinydd?
- Pa weithred oedd yr un hawsaf i'w chyflawni wrth i chi ddilyn?
- Beth roeddech chi'n dychmygu allai ddigwydd pe baech chi'n cyffwrdd â'r achubwr?
- Pa rôl oedd orau gennych – un yr 'arweinydd' neu un y 'dilynwr'?

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn deall cysyniad y 'swigen'
- nad yw'r gwisgoedd yn cyfyngu ar symudiadau'r plant na'u gallu i weld

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn datblygu rheolaeth gynyddol ar symudiadau mawr y corff?
- Yn dilyn rheolau syml gêm?
- Yn chwarae rôl mewn partneriaeth â phlant eraill?

weithiau

gan amlaf

Anogwch y plentyn i:

- afael yn llaw ei bartner
- cerdded yn araf
- trafod pa llwybr y bydd yn ei gymryd, cyn iddo ddechrau
- ymarfer rhedeg ar hyd llwybr dianc ar ei ben ei hun
- defnyddio cylch neu ddarn mawr o elastig i gadw'r ddau blentyn yn agos at ei gilydd
- dychmygu bod gan yr achubwr swigen enfawr i guddio ynddi

Anogwch y plentyn i:

- redeg er mwyn cyrraedd yr arweinydd a'i ddilyn
- cwblhau curs slalom yn rhan o'r llwybr dianc
- dychmygu bod yn rhaid cadw y tu mewn i swigen sy'n llai o faint

Cyfleoedd campus

- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu: Llafaredd – mabwysiadu rôl, gan ddefnyddio symudiadau ac ystumiau'n ymwybodol
- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Datblygiad cymdeithasol – datblygu dealltwriaeth o'u hunaniaeth Gymreig, cyfansoddiad y faner, a'r straeon am frwydrau rhwng dreigiau coch a gwyn
- Datblygu'r Gymraeg: Llafaredd – creu rhigymanu a straeon syml